**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH/PO/125/25

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Llywydd@senedd.cymru

24 Mawrth 2025

Annwyl Lywydd,

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Troseddu a Phlismona (y Bil CP) i Dŷ'r Cyffredin ar 25 Chwefror. Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod ichi am oedi wrth osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil hwn. Mae nifer o resymau am hyn, sy'n ymwneud yn bennaf â chymhlethdod a hyd y Bil.

Mae hwn yn ddarn cymhleth o ddeddfwriaeth sy'n ymestyn ar draws nifer o feysydd polisi a phortffolios Gweinidogol Llywodraeth Cymru. Mae ehangder y Bil CP, sy'n cynnwys pymtheg Rhan, ac yn 332 tudalen o hyd, yn cael ei hamlygu trwy deitl hir y Bil, sef:

*A Bill to make provision about anti-social behaviour, offensive weapons, offences against people (including sexual offences), property offences, the criminal exploitation of persons, sex offenders, stalking and public order; to make provision about powers of the police, the border force and other similar persons; to make provision about confiscation; to make provision about the police; to make provision about terrorism and national security, and about international agreements relating to crime; to make provision about the criminal liability of bodies; and for connected purposes.*

Fel y gwyddoch, cyflwynodd Llywodraeth flaenorol y DU y Bil Cyfiawnder Troseddol (y Bil CJ), a methodd y Bil hwnnw yn dilyn diddymu Senedd y DU cyn yr Etholiad Cyffredinol. Er bod mwyafrif y Bil CJ yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil CJ.

Roedd Llywodraeth Cymru yn gefnogol o ran bwriad polisi y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil.

Cafodd fy swyddogion olwg gyntaf ar y Bil CP drafft ar 21 Ionawr 2025, ac wedyn ar fersiwn wedi'i diweddaru o'r Bil Troseddu a Phlismona fel y'i cyflwynwyd ar 25 Chwefror 2025.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan y byddant yn ceisio cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd ar y cymalau canlynol:

- Cymalau 1, 5 a 7 ac Atodlen 2 – Cryfhau pwerau ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Cymal 14 – Ymosod ar weithiwr manwerthu
- Cymalau 74 - 75 – Trosedd ehangach sy'n annog neu'n cynorthwyo hunan-niweidio difrifol
- Cymalau 127 - 129 – Gweithredu cytundebau rhyngwladol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith.


Hyd yn hyn, mae ein Gwasanaethau Cyfreithiol wedi darparu dadansoddiad, ac wedi tynnu ein sylw at y cymalau canlynol sydd hefyd yn gofyn am gydsyniad gan y Senedd:

- Cymalau 2, 6, ac Atodlen 1 (Diwygiadau i Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014) ac Atodlen 3 (Adolygiadau o ymatebion i gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol)
- Cymal 90 (Cofebau Rhyfel)
- Cymalau 132 (Rheoliadau) a 133 (Rheoliadau a wneir gan Weinidogion yr Alban, adran Weinidogol Gogledd Iwerddon neu Weinidogion Cymru).

Ar hyn o bryd rydym wrthi'n cwblhau Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac yn disgwyl ei osod gerbron y Senedd cyn bo hir. Bydd hyn y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos o dan Reol Sefydlog 29 am y rhesymau a amlinellir uchod.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ac at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip